

**Cyngor Cymuned Pentir**  
**Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Fawrth 2020**  
**yn Nghanolfan Glasinfryn am 7.00pm**

**Agenda**

**Presennol:**

**Ymddiheuriadau:**

**Ethol Cadeirydd**

**Derbyn cofnodion 13eg o Chwefror 2020**

**Materion yn codi o'r cofnodion**

**Is-bwyllgor Cyllid - Cofnodion 26ain o Chwefror**

- Polisi Iaith

Gofrestr Asesu Risg

Cyng L A James

Derbyn cofrestr asesu risg

Taliadau angen sylw cyn diwedd Mawrth

Delwedd

£431.28

Cymen Cyfieithu x 2 £557.84 IBC a £386.38 Cyngor Llawn

Lwfans Cynghorwyr

Costau y Clerc 2019-20

Ad-daliad Torri Llwybrau 2019

**Ceisiadau Cynllunio** Dim hyd at 09-03-2020

Canolfan Penrhosgarnedd

Ysgol y Faenol

**Materion y Clerc**

- Gohebiaethau

Deddf Amgylched Cymru – Environment Wales Act

Cwblhau adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn

- Adroddiad

- Hysbysfyrdd Ysb Gwynedd

Materion y Cynghorwyr

Cyng D Jones-Morris

Cyng J Griffiths

Cyng M Baines

Datblygiadau Ffordd Penrhos

Cyflwr Lon Glasinfryn o'i gymharu a llwybrau beics

Cais i ystyried cyfuno ardal Pentir a Dinas Bangor ar gyfer codi arian i

Eisteddfod Boduan 2021

Cais cynllunio Coed Wern (y cabanau pren) – C18/0767/25/LL

# Cyngor Cymuned Pentir

## Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 9<sup>fed</sup> o Ionawr 2020

### Yng Nganolfan Gymunedol Glasinfryn am 7.00pm

#### Presennol:

Y Cyng. J. Griffiths, M Lynch, Eleri Jones, B Jones, M Baines, J Pierce a L. A. James  
Elwyn Jones (Clerc)

#### Ymddiheuriadau:

Y Cyng, D Jones-Morris, D W Jones, H Griffiths a T Anwyl-Williams

#### Ethol Cadeirydd i'r cyfarfod

Etholwyd Cyng J Griffiths i gadeirio y cyfarfod heno  
Traddodwyd y weddi hefyd gan Cyng J. Griffiths

#### Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant ar y ffurflen briodol os oedd angen.

#### Derbyn cofnodion 13eg o Chwefror 2020

Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng B Jones ag eilwyd gan y Cyng L A James

#### Materion yn codi o'r cofnodion

Wal Coed y Maes Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y bydda nhw yn gosod ffens ar y bwlch. Mynegwyd pryder ynglyn a beth yn union oedd 'y ffordd mwy economaidd' yn ei olygu mewn gwirionedd

#### **Clerc i holi ymhellach ar ddyluniad y ffens**

Llwybr beics ar Stad Redrow

Adroddwyd tra fod y llwybr yn ei le mynegwyd pryder ynglyn a safon y gwaith gan fod yr ymylon eisioes yn datgymalu

#### **Clerc i holi ymhellachgyda'r adran Gynllunio a'r adran tramwyo**

#### **Adroddiad Ariannol 29ain o Ionawr**

- Taliad TAW oedd ddim yn ddyledus i ni

Esboniodd y Clerc yn dilyn argymhelliad y Cyngor Llawn 9fed o Ionawr iddo ofyn i'r banc trosglwyddo £32,24.529 o'r Cyfrif Cadw i'r Cyfrif Cyfredol fel fod posib anfon y Siec o £39,029.34 yn ol i HMRC

Yn anodus trosglwyddodd y banc yn hollol groes gan adael dim ond £9K+ yn y cyfredol

'Roedd y banc wedi syrthio ar eu bai ag ni fyddai cosb i'r Cyngor

Erbyn hyn 'roedd y trsglwyddiad priodol wedi ei wneud a Siec arall ar ei ffordd i HMRC

- Tra yn gobeithio mae dyna oedd diwedd trafferthion HMRC 'roedd y Clerc wedi derbyn llythyr ganddynt yn datgan fod Cyngor Pentir mewn credyd o £14,561.12 yn eu cyfrif TWE (PAYE)

Adnabuwyd y swm fel y swm dderbynwyd gan HMRC nol ar yr 20fed o Fawrth 2019 ag a

drosglwyddwyd yn ol yn syth gan y Banc £10K ar 27ain o Fawrth 2019 a £4,561.12 ar yr 28ain o Fawrth 2019.

Y Clerc eisioes wedi bod mewn cyswllt a HMRC yn cydnabod fod yn amlwg fod y trosglwyddiad wedi mynd i'r adran anghywir ag y byddai nhw'n edrych i mewn i'r mater

- Ceisiadau Nawdd

Gafwyd 6 cais i'w ystyried Argymhellwyd cyfranu i 4 ohonynt, gan nodi derbyn ceisiadau gan swyddfeydd yr Eisteddfod Genedlaethol ag Eisteddfod yr Urdd

Byddai'r Cyngor yn ystyried ceisiadau gan grwpiau lleol

- Rhanwyd y fantolen ariannol yn dangos £33,964.98 yn y cyfrif cyfredol a £15,014.84 yn y cyfrif cadw
- Amcangyfrifwyd byddai angen cyllid o £49,922.00 ar gyfer 2020-21 a felly cadw at Praesept o £50K

- Cytunwyd cynnig y gwaith hadu blodau gwyllt yn Rhydygroes i Adran Bwrdeisdrefol Cyngor Gwynedd gan nad oedd cynnig arall

#### Ceisiadau Cynllunio

Dim wedi dod i lawr wrth anfon yr Agenda ond cais 2 gais wedi dod deuddydd cyn y cyfarfod  
 Cais C20/0174/25/CC Gwaith a thorri Coed oedd yn destyn Gorchymun Gwarchod yn Maes y Ffynnon - Dim gwrthwynebiad – yn wir croesawu gan fod rhai yn achosi pryder i drigolion yn Coed y Maes oherwydd eu maint a'i gwreiddia  
 Cais C20?0181/25/YA Estyniad i sied amaethyddol presennol y WaenWen Gwrthwynebu ar sail nad yw'r lleoliad naill ai yn uned amaethyddol nac yn uned goedwigaeth fyddai'n dod o dan ddeddfwriaeth amaethyddol

#### Canolfan Penrhosgarnedd

Dim i'w adrodd onibai nad yw'r adeilad byth wedi ei archwyllo ar gyfer sicrhau diogelwch Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd

#### Ysgol y Faenol

Dim i'w ychwanegu / adrodd ond y Clerc yn adrodd fod ein Cyfreithwyr wedi adrodd fod yr Eglwys yng Nghymru ynglwm yn y trafodaethau

#### **Clerc i holi Cyfreithwyr os oes angen trefnu cyfarfod**

#### Materion y Clerc

##### Gohebiaethau

- Sedd wag - Angen cysylltu a Gwynedd i ddatgan
- Gamlins Nodwyd uchod
- Diffibs Lleoliadau wedi eu cytuno a prisiau wedi eu derbyn
  - Angen cytundeb gyda Mrs B Bryant i osod ar 12 Bro Infryn Glasinfryn
  - Trefnu cysylltu a lampau Stryd / Cyngor Gwynedd
- Ad-dalu TAW yn ol i HMRC Bellach wedi ei wneud
- Trydan y Capel Nid oedd y Clerc wedi derbyn cais am dal ers 2018 ag wedi cysylltu a Scottish Power – Bydd anfoneb yn cael ei anfon allan
- Traelia Cyngorwyr Yn unol ag argymhelliad Panel Adolygu Annibynnol Cymru rhaid i'r Clerc dalu lwfans blynyddol i Gyngorwyr onibai ei fod wedi derbyn ffurflen gan y Cyngorydd yn datgan yn ysgrifenedig ei fod/bod yn optio allan o dderbyn y taliad
- Unllais Cymru (aelodaeth) Cytunwyd i ymaelod ar gyfer 2020 – Tal aelodaeth yn £430.00

#### Adroddiad

- Hysbysfwrdd Ysb Gwynedd - Dal heb ei osod oherwydd amodau gan Ysbyty Gwynedd  
**Cyng L A James am holi ymhellach i geisio cyfaddawdu**
- Cysgodfan Bws Wedi cyfarfod swyddog o Wynedd ag wedi cael y caniatad i osod un llawn yn hytrach na haner gan y byddai haner yn ymharu ar fannau archwyllo BT a Dwr Cymru  
**Clerc i gysylltu a'r tai cyfagos a wedyn hefo'r contractwr**

#### Materion y Cyngorwyr

Cyng M Lynch yn adrodd fod gor-yrru yn digwydd ar y ffordd gul heibio ei chartref yn rhannol oherwydd Ralio oedd eleni heb eu rhag-rybuddio ei bod ymlaen a hefyd fod yna adegau pan fo gyrrwyr rali yn ymarfer ar y ffordd

'Roedd eisioes wedi cysylltu a'r trefnwyr i gwyno

#### **Clerc i holi a chyfathrebu ar ran y Cyngor**

Gofynnodd Cyng Lynch hefyd os oedd posib anfon llythyr at y cyn Gyngorydd Cynrig Hughes i ddiolch iddo am ei wasanaeth onibai fod hynny wedi digwydd beth bynnag

#### **Clerc i anfon llythyr o ddiolch**

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.45**